
# Ydych chi wedi gweld y pryfyn hwn?

Cacynen felyngoes (a elwir hefyd yn gacynen Asia) *Vespa velutina*

NNSS
GB non-native species secretariat

## Beth ydyw?

Ysglyfaethwr tra ymosodol ar bryfed brodorol sy'n peri risg sylweddol i wenyn mêl a phryfed peillio eraill. Cafodd y rhywogaeth estron oresgynnol hon, sy'n tarddu o Asia, ei chyflwyno yn Ffrainc drwy ddamwain yn 2004, lle mae wedi lledaenu'n gyflym ac i mewn i wledydd cyfagos. Ers 2016, mae sawl achos o weld cacwn melyngoes wedi'u cofnodi yn y DU.




Lluniau: Jean Haxaire, Q. Rome, Didier Descouens. Hawlfraint y Goron

Mae ychydig yn llai na chacynen Ewrop frodorol. Gellir ei chymysgu â rhywogaethau eraill, a ddangosir isod ar eu graddfa wirioneddol er mwyn eu cymharu.



**Cacynen felyngoes** (*Vespa velutina*)



**Cacynen Ewrop** (*Vespa crabro*)



**Gwenynen feirch ganolwedd** (*Dolichovespula media*)



**Pry hofran sy'n dynwared cacynen** (*Volucella zonaria*)



**Cacynen y coed** (*Urocerus gigas*)

## Ble y gallwn ei gweld?

Mae'n bosibl y byddwch yn ei gweld ar blanhigion sy'n blodeuo, o amgylch cychod gwenyn, o amgylch ffrwythau a phrotein sy'n pydru / eplesu, ac mewn marchnadoedd stryd oherwydd stondinau ffrwythau melys a physgod. Mae'n weithredol rhwng mis Chwefror a mis Tachwedd ledled Cymru a Lloegr.

**Mae'r pryfyn hwn yn pigo, peidiwch â tharfu ar y nyth**

Rhowch wybod ar unwaith os byddwch yn gweld cacynen felyngoes ac anfonwch lun:

- gan ddefnyddio ap cofnodi iPhone ac Android: **'Asian Hornet Watch'**
- ar-lein yn: **nonnativespecies.org/asianhornet**
- drwy e-bost: **alertnonnative@ceh.ac.uk**

**Dysgwch fwy a rhowch wybod am achos o weld cacynen felyngoes:**

I gael rhagor o wybodaeth am rywogaethau estron goresgynnol ewch i: **nonnativespecies.org**